






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Grŵp Cyngor Technegol

Crynodeb o'r Cyngor

26 Mai 2021



Y Gell Cyngor Technegol: Crynodeb o'r Cyngor

26 Mai 2021

Crynodeb o'r prif bwyntiau

- Erbyn 21 Mai, roedd nifer yr achosion yng Nghymru wedi gostwng 19% i **8.4** achos fesul 100,000 o'r boblogaeth. Mae'r sefyllfa ar lefel ranbarthol yn dal i amrywio'n sylweddol bob wythnos, er bod hyn yn erbyn cefndir o niferoedd isel.
- Mae amcangyfrif diweddaraf y **Grŵp Cyngori Gwyddonol ar Argyfyngau (SAGE)** o'r rhif atgynhyrchu (R_t) rhwng 0.8 ac 1.0 (cyfwng hyder o 90%) ac amcangyfrifir bod y gyfradd gynnydd rywle **rhwng gostwng 4% a sefydlog ar 0%** bob dydd. (Sylwer bod amcangyfrifon R_t a chyfradd gynnydd SAGE yn cynrychioli lefelau trosglwyddo COVID-19 2 i 3 wythnos yn ôl yn hytrach na heddiw).
- Mae amcangyfrif diweddaraf **lechyd Cyhoeddus Cymru** o'r R_t rhwng **0.97 ac 1.17** (cyfwng hyder o 95%). Mae'r amcangyfrif hwn yn fwy cyfredol nag un SAGE, gan gynrychioli'r lefelau trosglwyddo tua wythnos yn ôl; fodd bynnag, mae'n defnyddio methodoleg wahanol yn seiliedig ar brofion positif o SARS-Cov-2.
- Er y bydd y niferoedd yn uwch erbyn hyn, erbyn 22:00 ar 21 Mai 2021 roedd **2,069,689** dos cyntaf (+78,906 ers yr wythnos flaenorol) a **969,682 ail ddos** (+78,113 ers yr wythnos flaenorol) o frechlyn Covid-19 wedi'u rhoi yng Nghymru.
- Yn ôl dadansoddiad diweddaraf y SYG o ran gwrthgyrff, rhwng 3 ac 8 Mai, **profodd dros 90% o bobl 50 oed neu'n hyn yn bositif o ran gwrthgyrff**, yn amrywio o 91.2% i 97.4%. O gymharu, roedd y rhai rhwng 16 a 49 oed a brofodd yn bositif o ran gwrthgyrff yn amrywio **o 48.2% i 69.4%**.
- Ar gyfer yr wythnos rhwng 9 Mai a 15 Mai 2021, mae'r [arolwg heintiadau COVID-19](#) yn amcangyfrif bod y cyfraddau heintio cymunedol yng Nghymru wedi **gostwng fymryn** i tua **1 person ym mhob 4,340** (cyfwng credadwy o 95%: *1 ym mhob 26,110 i 1 ym mhob 1,530*), neu **700 o bobl** yn ystod y cyfnod hwn.
- Erbyn 21 Mai, cofnodwyd **13,045 (+138 ers yr adroddiad diwethaf)** o achosion tebygol neu a gadarnhawyd o ran genomeg o'r amrywiolyn amlycaf "VOC-20DEC-01" (B.1.1.7, a nodwyd gyntaf yng Nghaint).
- Erbyn 21 Mai, cofnodwyd **28 (+17 ers yr adroddiad diwethaf)** o achosion tebygol neu a gadarnhawyd o ran genomeg o'r amrywiolyn **VOC21APR-02** (B.1.617.2, a nodwyd gyntaf yn India) yng Nghymru. Er bod nifer yr achosion yn gyffredinol yn parhau'n isel iawn, mae'r cynnydd mewn achosion mewn rhai rhannau o'r DU o'r amrywiolyn hwn **yn parhau i beri pryder**.
- Er bod dadansoddiad diweddar o effeithiolrwydd y brechlynnau gan lechyd Cyhoeddus Lloegr yn awgrymu mai cyfyngedig yw'r effaith o ran effeithiolrwydd y brechlynnau ar ôl y ddau ddos, ceir tystiolaeth gref bod yr amrywiolyn hwn yn

fwy trosglwyddadwy na B.1.1.7 ac y gallai dyfu i fod yn brif amrywiolyn yng Nghymru. Yn flaenorol, mae modelu [SAGE](#) wedi awgrymu lefel drosglwyddo o 40-50% yn uwch o'i gymharu â'r amrywiolyn amlycaf, ac y gallai arwain at gynnydd sylweddol arall yn y niferoedd a gymerir i'r ysbyty, gan gyrraedd niferoedd tebyg neu fwy nag a welwyd eisoes. O'r herwydd, mae'r amrywiolyn hwn yn risg newydd sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus a gweithredu cynnar i atal twf direolaeth a throsglwyddo cymunedol ehangach yng Nghymru.

- Mae'r gwelyau llawn mewn ysbytai ac mewn unedau gofal dwys, y niferoedd sy'n cael mynd adref a'r niferoedd sy'n cael eu derbyn mewn perthynas â COVID-19 i gyd wedi gostwng yn ystod yr wythnos ddiwethaf.

Papurau TAC/ SAGE a gyhoeddwyd yr wythnos hon

- [SAGE: CMMID COVID-19 Working Group: Modelling importations and local transmission of B.1.617.2 in the UK, 12 Mai 2021](#)
- [SAGE: SPI-M-O: Medium-term projections, 5 Mai 2021](#)
- [SAGE: Dynamic CO-CIN report to SAGE and NERVTAG, 13 Mai 2021](#)
- [SAGE: Vaccines Update Group: Setting up medium-and long-term vaccine strain selection and immunity management for SARS-CoV-2, 4 Mai 2021](#)
- [SAGE: SPI-M-O: Consensus statement on COVID-19, 5 Mai 2021](#)
- [SAGE: JUNIPER: Potential community transmission of B.1.617.2 inferred by S-gene positivity - briefing note, 11 Mai 2021](#)